OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 2044 (Cy.169)

DATGANOLI, CYMRULLWON, CYMRU

YR IAITH GYMRAEG

Gorchymyn Ffurfiau Cymraeg Llwon a Chadarnhadau (Deddf Llywodraeth Cymru 2006) 2007

Wedi'i wneud - -	*17 Gorfennaf 2007*
Wedi'i gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*17 Gorfennaf 2007*
Yn dod i rym - -	*18 Gorffennaf 2007*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y gorchymyn canlynol drwy arfer y pŵer sydd yn adran 26(2) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.(**1**)

Enwi, dehongli a chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ffurfiau Cymraeg Llwon a Chadarnhadau (Deddf Llywodraeth Cymru 2006) 2007.

(2) Yn y Gorchymyn hwn —

mae i "Aelod Cynulliad" yr ystyr sydd i "*Assembly member*" yn adran 1(3) o Ddeddf 2006; ac ystyr "Deddf 2006" ("*the 2006 Act*") yw Deddf Llywodraeth Cymru) 2006.(**2**)

(3) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 18 Gorffennaf 2007.

Ffurf Gymraeg y llw swyddogol a gymerir, neu'r cadarnhad cyfatebol a wneir, gan berson a benodwyd yn Brif Weinidog Cymru, yn un o Weinidogion Cymru neu yn Gwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru

2.—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys pan fo person yn cymryd y llw sy'n ofynnol gan adran 55(1) o Ddeddf 2006.

(2) Caiff y person hwnnw gymryd y llw swyddogol yn ffurf hon —

(**1**) 1993 p.38. Cyfarwyddodd erthygl 2 o Atodlen I i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), fod y y pŵer sydd yn adran 26(2) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 i fod yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn gydredol ag unrhyw Weinidog y Goron sydd â'r pw 246 er i'w arfer. Trosglwyddwyd y pwer o Gynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30(1) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("y Ddeddf").

(**2**) 2006 p.32.

"Yr wyf i, ... , yn tyngu y gwasanaethaf Ei Mawrhydi y Frenhines Elizabeth yr Ail gydag iawnder a didwylledd yn swydd ... ... Cynorthwyed Duw fi."

3.—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys pan fo person yn gwneud y cadarnhad cyfatebol sy'n ofynnol gan adran 55 (1) o Ddeddf 2006.

(2) Caiff y person hwnnw wneud y cadarnhad cyfatebol yn y ffurf hon —

"Yr wyf i, ... yn datgan ac yn cadarnhau yn ddifrifol, yn ddiffuant ac yn ddidwyll, y gwasanaethaf Ei Mawrhydi y Frenhines Elizabeth yr Ail gydag iawnder a didwylledd yn swydd ... ...

Ffurf Gymraeg y llw teyrngarwch a gymerir neu 'r cadarnhad cyfatebol a wneir gan berson a benodwyd yn Brif Weinidog Cymru, yn un o Weinidogion Cymru, yn Gwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru neu'n un o Ddirprwy Weinidogion Cymru

4.—(1) Pan fo person yn cymryd y llw teyrngarwch sy'n ofynnol gan adran 55(2) o Ddeddf 2006(**3**) caiff y person hwnnw gymryd y llw yn y ffurf a osodir yn erthygl 5(2).

(2) Pan fo person yn gwneud y cadarnhad cyfatebol sy'n ofynnol gan adran 55(2) o Ddeddf 2006 caiff wneud y cadarnhad hwnnw yn y ffurf a osodir yn erthygl 6(2).

Ffurf Gymraeg y llw teyrngarwch a gymerir neu'r cadarnhad cyfatebol a wneir gan Aelod Cynulliad

5.—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys pan fo Aelod Cynulliad yn cymryd y llw teyrngarwch sy'n ofynnol gan adran 23(1) o Ddeddf 2006.

(2) Caiff yr Aelod Cynulliad hwnnw gymryd y llw teyrngarwch yn y ffurf hon —

"Yr wyf i, , yn tyngu y byddaf yn ffyddlon ac yn wir deyrngar i'w Mawrhydi y Frenhines Elizabeth yr Ail, ei hetifeddion a'i holynwyr, yn unol â'r gyfraith. Cynorthwyed Duw fi."

6.—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys pan fo Aelod Cynulliad yn gwneud y cadarnhad cyfatebol sy'n ofynnol gan adran 23(1) o Ddeddf 2006.

(2) Caiff yr Aelod Cynulliad hwnnw wneud y cadarnhad cyfatebol yn y ffurf hon —

"Yr wyf i, ... yn datgan ac yn cadarnhau yn ddifrifol, yn ddiffuant ac yn ddidwyll, y gwasanaethaf Ei Mawrhydi y Frenhines Elizabeth yr Ail, ei hetifeddion a'i holynwyr, yn unol â'r gyfraith."

Enw'r Brenin neu'r Frenhines ar y pryd i'w ddefnyddio mewn llwon a chadarnhadau

7. Pan fo enw Ei Mawrhydi y Frenhines bresennol yn ymddangos yn ffurfiau y llwon ffurfiol a'r cadarnhadau a ragnodir gan y Gorchymyn hwn, fe'i hamnewidir ag enw Brenin neu Frenhines y Deyrnas hon o bryd i'w gilydd.

Dirymu

8. Dirymir Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Y Llw Teyrngarwch yn Gymraeg).(**4**)

(**3**) Mae adran 55(2) o Ddeddf 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i berson a benodwyd yn Brif Weinidog Cymru, yn un o Weinidogion Cymru, yn Gwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru neu'n un o Ddirprwy Weinidogion Cymru gymryd llw teyrngarwch yn y ffurf a osodir yn adran 2 o Ddeddf Llwon Addewidiol 1868 (p.72), neu wneud cadarnhad cyfatebol. Mae adran 55(3) o Ddeddf 2006 yn eithrio'r cyfryw bersonau rhag y gofyniad hwn os ydynt wedi cymryd llw teyrngarwch neu wedi gwneud cadarnhad cyfatebol wrth gydymffurfio â dyletswydd ar gael eu hethol yn Aelod Cynulliad. Gan adran 23(1) o Ddeddf 2006 y gosodir y ddyletswydd ar Aelodau'r Cynulliad i gymryd y llw teyrngarwch neu i wneud cadarnhad cyfatebol.

(**4**) O.S. 1999/1101.